# Heddlu Gogledd Cymru

# Datganiad am Gaethwasiaeth Fodern

**Yn unol â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Prif Gwnstabl yn cydnabod eu cyfrifoldeb fel cyflogwr i fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd am achosion o gaethwasiaeth fodern. Maent hefyd â chyfrifoldeb i hysbysu am achosion neu bryderon o'r fath i'r cyrff perthnasol.**

## Beth yw Caethwasiaeth Fodern?

Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd ac yn groes i hawliau dynol sylfaenol. Mae'n dod mewn sawl ffurf, megis caethwasiaeth, caethwasanaeth, camfanteisio rhywiol, llafur gorfodol a masnachu pobl. Maent i gyd ag un peth yn gyffredin sef unigolyn yn amddifadu rhyddid un arall er mwyn cymryd mantais ohonynt am fudd personol neu fasnachol.

Mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Prif Gwnstabl yn ymroddedig i sicrhau nad oes caethwasiaeth fodern na masnachu mewn pobl yr rhan o gadwyn cyflenwi'r heddlu nag yn unrhyw ran o'r busnes. Mae polisïau a gweithdrefnau'r heddlu yn arddangos ein hymroddiad i weithredu'n foesegol a chydag uniondeb yn ei holl gysylltiadau busnes.

Yn 2017, gwnaeth Comisiynwyr Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstabliaid pedwar heddlu Cymru Arwyddo Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi Llywodraeth Cymru. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn gwbl ymroddedig i ymdrin ag arferion cyflogaeth anfoesegol ac anghyfreithlon mewn cadwyni cyflenwi ac wedi creu **Cynllun Gweithredu** o ran yr ymrwymiadau o fewn y Cod.

Bydd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Heddlu Gogledd Cymru a'r Prif Gwnstabl yn gweithredu'r Cod ledled y busnes drwy ganolbwyntio ar bedwar maes:

**Gorfodaeth** – gwella casglu Cudd-wybodaeth drwy gydymffurfio gyda'r Cod Ymarfer

**Caffael Moesegol** – hybu datblygu cadwyni cyflenwi moesegol wrth gyflwyno cytundebau ar gyfer y gwasanaeth heddlu yng Nghymru

**Cyflogaeth** – Cymru Gyfan yn gweithio tuag at bolisi cyffredin gyda phryniant ledled y sefydliadau yn effeithio ar fusnes prif ffrwd a busnes dyddiol.

**Amgylchedd** - Nid yw cyhoedd Cymru ond yn gwylio ac maent yn hysbysu am gamfanteisio yn ei holl ffurf

Mae Polisi Gwerth Cymdeithasol 2017 yn cynnwys ffocws cynyddol ar gyflawni llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol drwy'r ffordd mae'r heddlu'n rheoli ei weithgarwch caffael.

Bydd yr Heddlu'n ceisio sicrwydd, lle bo'n briodol, gan gyflenwyr a chyflenwyr posibl drwy ei brosesau tendro. Y sicrwydd mae'n ei geisio yw am y ffaith nad yw'r cyflenwyr yn gwybod am unrhyw un o'r mathau uchod o gaethwasiaeth fodern o fewn eu sefydliadau neu gadwyni cyflenwi. Bydd yr Heddlu'n disgwyl i'r cyflenwyr hynny fod yn gyfrifol am geisio sicrwydd tebyg oddi wrth eu cadwyni cyflenwi eu hunain.

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

## Hyfforddiant

Mae staff Caffael Strategol wedi llwyddo i gwblhau hyfforddiant ar-lein 'Caffael a Chyflenwi Moesegol' Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi (CIPS). Maent yn ei loywi bob blwyddyn. Bydd staff sydd y nghlwm â chaffael a/neu recriwtio yn ymgymryd â hyfforddiant perthnasol drwy fodiwl e-ddysgu Llywodraeth Cymru/GIG.

Mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Prif Gwnstabl yn gweithio tuag at gyflog byw'r Sefydliad Cyflog Byw. Mae heddluoedd Cymru wedi cytuno i ddatblygu Polisi Chwythu Chwiban Cymru Gyfan gyda chyfeiriad penodol at y Cod Ymarfer.

## Cedwir ein Hamcanion yn y Cynllun Gweithredu

Mae gan y cyhoedd a'r staff, yn yr un modd, gyfrifoldeb i fod yn ymwybodol am achosion posibl o gaethwasiaeth fodern neu am fusnes yn defnyddio llafur gorfodol. Os oes gennych unrhyw bryderon o'r fath, cysylltwch ag un o'r cyrff canlynol:-

**Heddlu Gogledd Cymru: Ffôn 101 (neu 999 mewn Argyfwng)**

**Llinell Gymorth Caethwasiaeth Fodern: Ffôn 0800 0121700**

**Crimestoppers: Ffôn 0800 555 111**

**Lawrlwythwch yr Ap Anweledig am ddim**

Mae'r Datganiad hwn wedi'i gymeradwyo gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Prif Gwnstabl. Caiff ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol.



**Arfon Jones**
Comisiynydd Heddlu a
Throsedd Gogledd Cymru



**Carl Foulkes**
Prif Gwnstabl,
Heddlu Gogledd Cymru

08000 121 700

Arwyddwyd yn wreiddiol ar 15 Mawrth 2019

Adolygwyd a diweddarwyd 23 Hydref 2020

gwneud Gogledd Cymru'r lle **mwyaf diogel** yn y DU
making North Wales the **safest** place in the UK